# PAPURAU BUSNES

## 27 Mehefin 2000

## Rhan 1 – Adran G

## Rhybudd o gynigion a Gwelliannau ar gyfer Dadl yn y Dyfodol

## Cynigion a gyflwynwyd ar 20 Mehefin 2000

**NDM342 William Graham (Dwyrain De Cymru); Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); Peter Rogers (Gogledd Cymru);**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn galw ar Lywodraeth Cymru i ofyn i Lywodraeth Ei Mawrhydi yn San Steffan i ganiatáu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru benderfynu ar gwestiwn hela gyda chn yng Nghymru drwy lunio unrhyw Fesur i ddarparu dibenion is-ddeddfwriaethol i'r perwyl hwn, wedi'u seilio ar:

- y ffaith mai hwn yw'r dull mwyaf effeithiol o reoli pla er mwyn amddiffyn da byw
- y ffaith ei fod yn darparu swyddi yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol drwy Gymru
- y ffaith ei fod wedi ei hen sefydlu yn rhan o frithwe bywyd cefn gwlad

**NDM 343 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Ansawdd Aer (Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Mehefin 2000.

**NDM 344 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

(a) yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau sy'n ymwneud â'r Gorchymyn drafft, Rheoliadau Ansawdd Aer (Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Mehefin 2000.

(b) yn cymeradwyo bod y Gorchymyn wedi’i wneud yn unol â’r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Mehefin 2000.

**NDM 345 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 46(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, a Rheol Sefydlog 26:

i) yn cymeradwyo’r diwygiadau a ganlyn i’r Rheolau Sefydlog;

ii) yn penderfynu y bydd effaith i’r diwygiadau ar unwaith:

**Diwygiad 1**

Ychwanegu’r geiriau a ganlyn at ddiwedd Rheol Sefydlog 12.7:

Lle datgymhwysir aelod o’r Pwyllgor fel hyn, caiff y grp gwleidyddol priodol enwebu am aelodaeth dros dro o’r Pwyllgor aelod arall o’r grp nad yw, neu nad oedd ar adeg berthnasol, yn aelod o’r pwyllgor pwnc perthnasol ac yr hysbyswyd ei enw ymlaen llaw i’r cadeirydd. Caiff y cynrychiolydd enwebedig gymryd rhan yng nghyfarfodydd y pwyllgor ym mhob ffordd fel petai ef neu hi’n aelod ohono. Ni chaiff y cynrychiolydd enwebedig fod yn aelod o Gabinet y Cynulliad. Ni chaiff unrhyw aelod gynrychioli mwy nag un pwyllgor mewn cyfarfod.

**Diwygiad 2**

Ychwanegu paragraff newydd 22.23A:

22.23A i) Caiff un o Ysgrifenyddion y Cynulliad gynnig cynnig, o leiaf pum niwrnod cyn y bwriedir ei ystyried, bod mwy nag un Gorchymyn drafft (a bennir yn y cynnig) yn cael eu cymeradwyo yn unol â pharagraff 22.23(iii) isod, ac na fydd darpariaethau paragraffau 22.13 i 22.23 yn gymwys. Lle bydd cynnig o’r fath yn ymwneud â mwy nag un Gorchymyn drafft, bydd yn cynnig eu bod yn cael eu cymeradwyo gyda’i gilydd.

ii) Caiff o leiaf 3 Aelod gyflwyno rhybudd, o leiaf 3 diwrnod gwaith cyn y bwriedir ystyried cynnig, sy’n gofyn bod un neu ragor o'r Gorchmynion drafft y mae'r cynnig yn ymwneud â hwy, yn cael eu hystyried ar wahân. Pan fydd hysbysiad o'r fath yn cael ei gyflwyno, bydd unrhyw Orchymyn drafft y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef yn cael ei ystyried yn unol â pharagraffau 22.13 i 22.23.

iii) Pan na fydd hysbysiad o'r fath wedi'i gyflwyno, neu pan nad yw'r hysbysiad yn ymwneud â phob un o'r Gorchmynion drafft a bennir yn y cynnig, cynhelir pleidlais ar y cynnig ar unwaith, heb gynnal dadl, ac effaith cymeradwyo'r cynnig fydd cymeradwyo'r holl Orchmynion drafft a bennir yn y cynnig ac eithrio unrhyw rai a enwir mewn hysbysiad o'r fath.

**NDM 346 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe)**

Cynnig bod y Cynulliad:

i. yn nodi ac yn cymeradwyo sefydlu swyddfa’r Cynulliad ym Mrwsel a bod ei gais i ymuno â Chanolfan Ewropeaidd Cymru wedi’i dderbyn;
ii. yn galw ar Gabinet y Cynulliad i gymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu hystyried yn llawn wrth ddatblygu polisïau Ewropeaidd sy’n effeithio ar Gymru;
iii. yn nodi’n enwedig yr angen i swyddogion y Cynulliad gynnal perthnasau gwaith agos ag UKREP, ac i Ysgrifenyddion y Cynulliad fynd i gyfarfodydd Cyngor y Gweinidogion; a
iv. yn annog y weinyddiaeth i sicrhau bod trefniadau effeithiol yn eu lle i wneud y defnydd gorau o staff y Cynulliad sydd wedi’u secondio i sefydliadau Ewropeaidd, ac i’w hadleoli’n effeithiol pan fyddant yn dod yn ôl.